

CYN- FYFYRWYR CBCDC

CYLCHLYTHYR
HAF
2021



ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

rwcmd.ac.uk/alumni

NEGES GAN Y PRIFATHRO

DAW'R FLWYDDYN HON I BEN GYDA'R UN FAINT O ANGEN I FOD YN HYBLYG A CHANFOD FFYRDD NEWYDD I REOLI AG Y DECHREUODD. MAE WEDI TEIMLO MOR RHYFEDD OND RWY'N HYNOD FALCH O'R HYN YR YDYM WEDI'I GYFLAWNI, A HOFFWN DDIOLCH I BAWB YN CBCDC AM HYN, AC AM SICRHOU EIN BOD YN CYRRAEDD MAN LLE RYDYM YN BAROD I GROESAWU BLWYDDYN ANRHAGFYNEGADWY ARALL.

Rydym wedi gweld dychymyg a chreadigrwydd rhyfeddol gan fyfyrwyr a staff drwy gydol y flwyddyn, er gwaethaf yr heriau amlwg o ddarparu hyfforddiant conservatoire yng nghanol pandemig. Er bod lleoliadau ledled y wlad wedi bod ar gau i'r cyhoedd, rydym wedi bod yn arbennig o ffodus i groesawu artistiaid o'r radd flaenaf i'r Coleg ac mae myfyrwyr a staff wedi cael y cyfle i brofi lluo o berfformiadau a dosbarthiadau meistr yn fyw ac ar-lein, ac roedd llawer ohonynt hefyd ar gael i'n cynulleidfaoedd ar-lein. Rydym hefyd wedi gweld twf mewn cydweithrediadau a phartneriaethau tymor hwy ac mae llawer i edrych ymlaen ato y flwyddyn nesaf.

Trwy gydol y flwyddyn bu'n hyfryd gweld llawer o weithgarwch prysur yn dal i allu digwydd yn y Coleg. Er gwaethaf yr amgylchiadau, yr haf hwn rydym wedi llwyddo i gwblhau pedwar cynhyrchiad Drama ar raddfa fawr yn y Coleg, wedi'u cyfarwyddo gan bedwar o brif ymarferwyr a chyfarwyddwyr sy'n dod i'r amlwg yn y DU gyda phedwar cwmni gwahanol o actorion trydedd flwyddyn ac MA yn perfformio mewn dwy theatr.

Wedi wythnosau o drafod, cytunodd Neuadd Dewi Sant i ni ddefnyddio'r neuadd ar gyfer prosiect cerddorfaol hynod lwyddiannus a oedd yn cynnwys ein myfyrwyr Arwain Ôl-radd ym mis Mehefin. Dilynwyd hyn gan gyfle gwych i'r myfyrwyr Arwain weithio gyda cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru, ein Hathro Cadair Rhyngwladol, Carlo Rizzi, yn theatr Donald Gordon Canolfan Mileniwm Cymru. Gwnaethom hefyd lwyddo i gyflwyno perfformiadau a lwyfannwyd yn rhannol o The Turn of the Screw, dwy sioe wych wedi'u cyfarwyddo gan ein myfyrwyr cyfarwyddo opera, a'r sioe gerdd Urinetown. Y cyfan ochr yn ochr ag amserlen lawn o ddatganiadau ac asesiadau.

Rydym yn parhau i ddathlu llwyddiannau gyda'n cymuned o gynfyfyrwyr, yn arbennig yn ystod blwyddyn heriol, y cyfeirir at nifer ohonynt ar dudalen 3.

Roedd hi'n bleser mawr i ni gyhoeddi y byddai ein cyfaill ac Athro Cadair Rhyngwladol Uzo Iwobi yn Is-lywydd



Llun gan Kirsten Mcernan

newydd y Coleg. I'r rhai hynny ohonoch sydd ddim yn adnabod Uzo, cyfreithiwr ac ymarferydd o dras Prydeinig-Nigeriaidd ydyw ac mae'n Gynghorydd Polisi Arbenigol ar Gydraddoldeb i Lywodraeth Cymru, Comisiynydd i Gomisiwn Cydraddoldeb y DU, a sylfaenydd Race Council Cymru. Mae wedi derbyn nifer o ddyfarniadau, gan gynnwys OBE, am ei chyfraniadau i gysylltiadau hiliol yn y gymuned a Chymunedau De Cymru.

Ers i Uzo ymuno â'r Coleg dair blynedd yn ôl mae wedi bod yn aelod gweithgar a llawn ysbrydoliaeth o'n cymuned, ac mae ei rôl newydd yn ffordd i ni ddathlu ei chyfraniad i CBCDC. Yn ogystal â'n cyflwyno i aelodau amrywiol ein cymuned, gan gynnwys Hynafiaid Windrush Cymru, mae Uzo hefyd wedi chwarae rhan hollbwysig yn ein helpu i lunio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gwrth-hiliaeth y gwnaethom eu lansio llynedd fel map ffordd ar gyfer creu a pharhau i ddatblygu lle parchus i bawb o fewn ein Coleg.

Gan edrych i'r dyfodol, mae ein Hadran Datblygu yn paratoi i lansio ymgyrch codi arian newydd o'r enw Addewid ar ddechrau blwyddyn yn academiaidd 2021/22 ym mis Medi. Bydd yr ymgyrch yn rhedeg am ddwy flynedd a'i nod yw codi dros ddwywaith yr hyn rydym yn arfer ei llwyddo i'w godi fel y gallwn ddod allan o'r cyfnod hwn o bandemig yn gallu buddsoddi a datblygu ein nodau strategol yn gyflym. Meddai'r ymgyrch "gwyddom mai ein myfyrwyr yw'r genhedlaeth nesaf o berfformwyr, ymarferwyr, crewyr a rheolwyr a fydd yn gwireddu addewid Cymru i'r byd. Mae enw ein hymgyrch yn amlygu'r addewid sy'n gynhenid ynddynt i gyd yn ogystal â'n hymrwymiad ni i feithrin eu doniau, annog amrywiaeth a rhoi'r cyfle o hyfforddiant i'r rheini sy'n eithriadol ddawnus, beth bynnag fo'u cefndir economaidd neu gymdeithasol. Pe byddech yn ychwanegu addewidion ac addunedau ein cymuned gefnogol, gyda'n gilydd gallwn wneud rhywbeth rhyfeddol i roi eu llwyfannau iddynt a'u cychwyn ar eu llwybrau."

Cadwch mewn cysylltiad ac edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu'n ôl i'r Coleg cyn gynted â phosibl!

Helena F. Sant

LLWYDDIANNAU MYFYRWYR A GRADDEDIGION

DRAMA

- + Enillodd **Rakie Ayola**, a raddiodd o'r Coleg ac sydd hefyd yn Gymrawd, wobwr BAFTA yr Actores Gynorthwyol Orau am ei rôl yn Anthony.
- + Chwaraeodd **Callum Scott Howells**, a raddiodd mewn Actio yn 2020, un o'r prif rannau yn nrama flaengar Channel 4 *It's a Sin*.
- + Mae **Andrew Horton**, a raddiodd yn 2015, yn serennu yn *Jupiter's Legacy* ar Netflix.
- + Roedd lluo o Raddedigion CBCDC yn rhan o ddrama *The Pact* ar BBC Wales gan gynnwys **Rakie Ayola, Aneurin Barnard, Heledd Gwynn, Alexandra Riley, Abbie Hern, Ben McGregor, Eiry Thomas, Mark Lewis Jones** a **Sophie Melville** yn y cast. Y tu ôl i'r camera roedd y Cynhyrchydd **Catrin Lewis Defis**, Cynllunydd Gwisgoedd **Ray Holman**, Cyfarwyddwr Celf **Vicki Male**, y Lliwydd **Emyr Jenkins** a **Dilara Medin** a **Hollie Voice** yn Gyfarwyddwr Celf Wrth Law a Rheolwr Lleoliadau.
- + Gwelwyd **Anjana Vasana**, a raddiodd mewn Actio, yn y gyfres gomedi *We Are Lady Parts* ar Channel 4, yn ymdrin â Band Pync o fenywod Mwslimaidd.
- + Serennodd **Thalissa Teixeira**, a raddiodd mewn Actio yn 2014, yn y ddrama *Too Close* ar ITV ac roedd yn rhan o gast amrywiol *Anne Boleyn* ar Channel 5, a oedd hefyd yn cynnwys **Lola Petticrew** ac **Aiofe Hinds**.
- + Mae pedwar o'n graddedigion Cynllunio wedi bod yn gweithio ar addasiad newydd Netflix o *Heartstopper*. Guto Humphries (2006) - Cyfarwyddwr Celf, **Carys Beard** (2012) - Cyfarwyddwr Celf Wrth Law, **Charlie Chadwick** (2018) - Cyfarwyddwr Celf Cynorthwyol ac **Anastasia Louka** (2020) - Cynorthwydd yr Adran gelf.
- + Roedd **Luke McCall**, a raddiodd mewn Theatr Gerddorol yn 2015, yn rhan o *Les Miserables - The Staged Concert* yn Theatr Sondheim yn 2020.
- + Mae **Michael Lowe** (2017) wedi cael ei gastio yn *The Phantom of the Opera* pan fydd y sioe yn dychwelyd i Her Majesty's Theatre yr haf hwn, ac yntau wedi bod yn rhan o gast taith y DU ac Iwerddon y sioe yn 2020.
- + Penodwyd **Thomas McFarlane** (2018) yn Gyfarwyddwr Preswyl *Mamma Mia* ar gyfer *Royal Caribbean 2020*.
- + Perfformiodd **Teleri Hughes** (2017) am y tro cyntaf yn y West End yn sioe *gerdd The Heathers* yn Theatre Royal Haymarket ym mis Mehefin eleni.
- + Daliodd **Debbie Duru**, a raddiodd mewn Cynllunio yn 2019, rolau fel Cynllunydd Cyswllt gyda'r National Theatre ar gyfer *Jack and the Beanstalk*, Cynllunydd

"RYDYM WEDI BOD YN
GWEITHIO AR Y
BARTNERIAETH Gyda
MUSIC IN COUNTRY
CHURCHES - ELUSEN A
GEFNOGIR GAN EUB
TYWYSOG CYMRU..."

- yn y Royal Court ar gyfer *Living News Paper* a chyrhaeddodd rownd derfynol Gwobr Linbury.
- + Daliodd **Rose Revitt** (2019) rolau fel Cynllunydd yn *Bridge Theatre* ar gyfer *A Christmas Carol*, enillodd Wobr Stage Debut am y Cynllun Gorau ar gyfer *Dr Korczak's Example* yn y *Leeds Playhouse Paper* a chyrhaeddodd rownd derfynol Gwobr Linbury.
 - + Dewiswyd dau gynnydd o CBCDC fel rhan o'r prosiectau arddangos terfynol yn *The Prague Quadrennial International Common Design Project*, *The White Plague*. Cynlluniwyd y cyflwyniad grŵp llwyddiannus gan **Josie Bellerby, Tomas Palmer, Joseph Loftin, Hannah Drum** ac **Emeline Beroud** a'r cyflwyniad unigol gan **Flora Mealyou**.
 - + Enillodd y myfyriwr BA2 Actio, **Ayo Adegun**, Ysgoloriaeth Luke Westlake.

CERDDORIAETH

- + Dechreuodd **Toks Dada**, cynfyfyriwr Cerddoriaeth a Rheolaeth yn y Celfyddydau, ar ei swydd fel Pennaeth Cerddoriaeth Glasurol yn y South Bank ym mis Rhagfyr.
- + Cafodd yr adran Cyfansoddi lawer o lwyddiant - enwebwyd **Jasper Dommert**, a raddiodd yn 2021, ar gyfer Gwobr Ivor Novello 2020 yn y categori Cerddorfaol Mawr am ei waith *Night Music* a chyhoeddwyd mai ef oedd enillydd Hyb Cyfansoddwyr RSNO 2020/21, a chyhoeddwyd mai *Carlijn Metselaar*, a raddiodd hefyd o'r Coleg, oedd yr enillydd yn 2019/20 - bydd gweithiau gan y ddau gyfansoddwr yn rhan o dymor 2021/22 RSNO.
- + Enillodd **Tianyi Lu**, a raddiodd ar y cwrs Arwain, y Wobr Gyntaf yn nawfed Cystadleuaeth Arweinwyr Rhyngwladol Syr Georg Solti o fri.
- + Mae **George Robinson**, a raddiodd o'r adran Gitâr, wedi ennill lle ar Gynllun Pit Perfect Talent Glyndebourne.
- + Rydym wedi bod yn gweithio ar y bartneriaeth gyda *Music in Country Churches* - elusen a gefnogir gan EUB Tywysog Cymru, sy'n cynorthwyo i hybu menter i gynnwys artistiaid ifanc CBCDC mewn cyngherddau gydag ensembles proffesiynol yn eglwysi'r wlad. Enillydd Gwobr Stoutzker **Laura Deignan** (clarinét) oedd artist cyntaf CBCDC i gael ei chynnwys mewn perfformiad o *Finzi Bagatelles* ar gyfer *Clarinet a Cherddorfa Linyddol* gyda'r *English Chamber Orchestra* ym mis Gorffennaf 2021.

ADDASU AC ARLOESI — IMZ FLYING ACADEMY

MEWN YMATEB I'R PANDEMIG RYDYM WEDI TEIMLO, EFALLAI'N FWY BRWD NAG ERIOED, YR ANGEN I ADDASU'N GYFLYM ER MWYN SICRHAU BOD DARPARIAETH CELFYDDYDAU AC ADDYSG WEDI GALLU PARHAU YN YSTOD BLWYDDYN HERIOL.

Gyda'r arallgyfeirio hwn mae cyfleoedd newydd wedi ymddangos ar gyfer cydweithrediadau ar draws y maes, a rhwng mis Ebrill a mis Mehefin eleni cafodd grŵp o fyfyrwyr CBCDC y cyfle i fanteisio ar weithdy ar-lein rhwng IMZ International Music & Media Centre, CBCDC a Koninklijk Conservatorium - Conservatoire Brenhinol Yr Hague.

Nod IMZ Flying Academy yw gweithio gyda cholegau celf a chonservatoires i roi dysgu digidol ar waith yn eu cwricwlwm. Mae hwn yn rhywbeth y gall pawb ohonom weld pwysigrwydd ei gynnal yn y dyfodol.

Dewiswyd chwe myfyriwr o CBCDC, yr oedd phob un ohonynt wedi bod yn cydweithio ar dri phrosiect creadigol, i gymryd rhan; The Flying Bedroom - cwmni theatr sy'n cyfuno cerddoriaeth a chynllunio mewn perfformiadau hygyrch i blant, menter gan y cyfansoddwyr Jasper Dommett a Derri Lewis i guradu platfform digidol er mwyn hyrwyddo a grymuso artistiaid LGBTQ+ a hysbysu cynulleidfaoedd a Several Circles, gwaith perfformiad trochol gyda chynulleidfaoedd dall a byddar yn ganolog iddo a sut y gellir ffilmio, digideiddio a rhannu hwn gyda chynulleidfaoedd o bobl ifanc ar draws sefydliadau addysgol.

Dywedodd Sofi Nowell, sy'n gweithio ar y prosiect Several Circles, bod y panel o arbenigwyr a ddewiswyd yn ofalus wedi cyflwyno'r cyfranogwyr i ffyrdd arloesol newydd o weithio gan annog meddwl beirniadol am eu gwaith eu hunain. 'Fe wnes i fwynhau'n fawr iawn clywed gan Kay Meseberg a rannodd waith digidol uchelgeisiol o gyfres Arte's Passengers - casgliad o berfformiadau clyweledol sy'n digwydd mewn gofodau rhyfeddol megis y Bassin de Lumières yn Bordeaux. Gwelais nodweddion tebyg rhwng fy ngwaith fy hun a'r gwaith a rannwyd yn ystod y rhaglen a rhoddodd hyn hyder newydd i mi yn fy syniadau creadigol.

Daeth yn amlwg y gallwn fynd yn llawer pellach gyda fy ngweledigaeth greadigol, ac mae hyn wedi ail-lywio fy agwedd bersonol. Roedd creu gwaith digidol cydweithredol (mewn llai na dwy awr) gyda myfyrwyr yn yr Hague yn rhywbeth arbennig a wnaeth fy synnu, ac mae wedi paratoi'r ffordd ar gyfer cydweithrediadau rhyngwladol yn y dyfodol.'

Daeth y cynllun peilot hwn i'w benllanw mewn fforwm deuddydd ar-lein lle bu'r myfyrwyr yn gweithio gydag arbenigwyr o Opera a Bale Cenedlaethol y Ffindir, Cymdeithas Conservatoires Ewrop, ARTE a'r feiolinydd Yury Revich ar raglen o ddigwyddiadau oedd wedi'u bwriadu i ddatblygu prosiectau mewn gweithdai a rhannu adborth, y cyfan gyda'r nod o baratoi myfyrwyr ar gyfer y byd y mae platfformau digidol yn eu hagog o fewn y celfyddydau.

Meddai'r Pennaeth Perfformio Cerddoriaeth, Kevin Price, 'Roedd gallu arbenigol IMZ Flying Academy yn cynnig mentoriaeth mewn llythrennedd digidol, creadigrwydd ac arloesedd ar gyfer tri o brosiectau CBCDC, gan roi trosolwg o'r arfer gorau yn nefnydd arloesol a chreadigol adnoddau digidol ac arbenigedd drwy gefnogaeth ymarferwyr blaenllaw. Cysylltodd y rhaglen fyfyrwyr o'r KONCON a CBCDC, gyda safbwyntiau'n cael eu rhannu ymhlith y garfan o fyfyrwyr a rhoddodd y gweithdy ymarferol gyfle i'r cyfranogwyr ddatblygu eu prosiectau creadigol mewn modd strwythuredig, gyda nodau diffiniedig.'

'Nid yn unig y gwnaeth y prosiect roi gwedd newydd ar strwythur a modelau cyflwyno prosiectau myfyrwyr, ond hefyd taflodd oleuni ar y potensial ar gyfer adolygiad systematig o sut y mae prosiectau'n cael eu newid a'u haddasu mewn ymateb i gyngor a mentoriaeth gan allu arbenigol IMZ Flying Academy. Drwy ddefnyddio'r dull hirdymor hwn mae IMZ yn creu model o etifeddiaeth sy'n galluogi partneriaeth artistig ryngwladol a llythrennedd digidol creadigol, gydag ethos o Ddinasyddiaeth Greadigol fel gwerth craidd.'

Aelodau Flying Bedroom yn cyfarfod ag EHB Duges Cernyw ar ymwelid â CBCDC, Gorffennaf 2021. Llun gan Simon Gough



SYLW I BYPEDWAITH

GYDA LUCY HALL - UWCH DDARLITHYDD YM MAES CYNLLUNIO AR GYFER PERFFORMIO

Ymateb i Artes Mundi 9 oedd Pypedwaith 2021 a'i nod oedd ysgogi deialog a thrafodaeth a chysylltu'r byd-eang i'r lleol. Mae'r arddangosfa ddwyflynyddol i'w gweld ar hyn o bryd yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Chapter a g39 yng Nghaerdydd.

Gan nad oedd modd mynd â'r prosiect allan i'r gymuned eleni a heb gynulleidfa oedd mawr nid oedd galw am waith ar raddfa fawr, teimlwyd ei fod yn gyfle delfrydol i wthio ffiniau'r cyfrwng.

Ers cymryd awenau'r prosiect dair blynedd yn ôl bu gennyf ddiddordeb mewn sut y gallai pypedwaith ymateb i, a myfyrio ar, y 'stwyff mawr' a lle gallai theatr gwrthrychau a deunyddiau a gwaith dyfeisiedig gyd-orwedd o fewn y prosiect hynod boblogaidd hwn.

Felly, eleni cafodd grwpiau a oedd yn cynnwys myfyrwyr BA1, BA2 ac MA Cynllunio a 2 gyfansoddwr waith un o'r chwe artist rownd derfynol Artes Mundi i ymateb iddo. Ochr yn ochr â thîm o diwtoriaid arbenigol ym maes gwneud, gweithiodd y cyfarwyddwr pypedwaith Marc Parrett a minnau ar ddeunyddiau dyfeisiedig gyda'r myfyrwyr i greu dwy sioe 45 munud o hyd a berfformiwyd yng Nghwrt



**"ROEDD CREU'R SIOE
GYDA'R CYFYNGIADAU
COVID YN ANODD
AR ADEGAU, OND
LLWYDDOM I GYNHYRCHU
RHYWBETH RHYFEDDOL
GYDA'N GILYDD!"**

Canolfan Anthony Hopkins ar ddiwedd mis Mehefin/
mis Gorffennaf - Puppet Perspectives 1 a 2.

Mae arddangosfa Artes Mundi artesmundi.org wedi bod yn symbyliad gwych. Yn gyntaf oherwydd bod mynd i arddangosfa yn deimlad mor gyffrous a rhyddhaol wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo, ond hefyd oherwydd bod themâu byd-eang yr arddangosfa yn bwysig ar gymaint o lefelau, yn bersonol ac yn broffesiynol. Mae cynrychiolaeth, cymuned a pherthyn yn llinynnau sy'n rhedeg drwy'r cyfan. Yr amgylchedd a pherthynas pobl â'r tir a'i ddiwriad. Hanes a'r gorffennol, pwy sy'n cael siapio'r hyn sy'n ffaith neu ffuglen, neu a ydynt wastad yn cydfodoli? Ym mhob arddangosyn fe welwn bethau'n brwydro yn erbyn caethiwed, yn brwydro yn erbyn rheolau, rheoliadau a'r 'status quo'. Mae ffrwydradau o liw Baez yn amharu ar fapiau'r cyfnod gwladychol, gan fynd i'r afael â chwestiynau hunaniaeth ddiwylliannol a mudo. Mae'r tirweddau a ddychmygir o ffigurau hybrid Pachputeo yn cloddio'r tir tra'n ffrwydro allan o'u cynfasau petryalog ac i waliau'r oriel.

Cafodd y myfyrwyr gyfle i weld y sioe â'u llygaid eu hunain pan agorodd ychydig wythnosau'n ôl. 'Mae'n teimlo bod angen i ni ail-ddyfeisio ein hunain - dechrau unwaith eto' meddai un myfyriwr. Wedi'r flwyddyn ddiwethaf - mae'r teimlad hwnnw'n un cyffredinol!

Dywedodd James Jones Morris, un o'r myfyrwyr ôl-radd oedd yn rhan o'r prosiect, ei bod yn wych gallu cydweithio o'r diwedd mewn grŵp ar ôl llawer o waith unigol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

'Roedd creu'r sioe gyda'r cyfyngiadau Covid yn anodd ar adegau, ond llwyddom i gynhyrchu rhywbeth rhyfeddol gyda'n gilydd! Ac roedd gallu dangos y gwaith i gynulleidfa fyw ar y diwedd yn wych, mae perfformio i gynulleidfa yn gwneud i chi ganolbwyntio ar greu'r pypedwaith gorau y gallwch!

Y peth gorau am y prosiect pypedwaith haf oedd gweld sut y gwnaeth syniadau pawb ffurfio ac yna eu gwyllo'n cael eu gwneud a dod yn fyw fel pypedau go iawn!

**Gyda diolch i Lucy Hall a James Jones Morris
Mae arddangosfa Artes Mundi 9 yn cael ei harddangos
yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Chapter a g39
tan 5 Medi 2021**

Llun gan Simon Gough



10 MLYNEDD O GYFLEUSTERAU

Ar 23 Mehefin 2011 roeddem yn dathlu agor ein cyfleusterau o'r radd flaenaf. Ar yr un dyddiad yn 2021 lansiodd y Coleg flwyddyn o ddathlu gyda deg o ddigwyddiadau penodol drwy gydol y flwyddyn nesaf, a fydd yn arddangos y cyfan y mae'r Coleg wedi'i gyflawni dros y degawd ac yn arwydd o'i uchelgais ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Yn y llun gwelir yr olygfa o'r adeilad gwreiddiol tuag at Neuadd Dora Stoutzker a Theatr Richard Burton pan oeddent yn cael eu hadeiladu ym mis Ebrill 2010.

OPERA YSGOLION

Cyflwynodd rhaglen Opera Ysgolion CBCDC berfformiad premiere byd o opera i 300 o blant o bump ysgol gynradd ledled Caerdydd, a oedd yn gallu gwyllo ac ymgysylltu â myfyrwyr CBCDC ar-lein a gweld cynhyrchiad gyda phellter cymdeithasol o Cat and Dog - opera newydd sbon a ysgrifennwyd gan y myfyriwr Cyfansoddi Ethnie Foulkes.

UCHAFBWYNTIAU





The Electric. Llun gan Kirsten McTernan



NEWYDD '21: The Ache. Llun gan Kirsten McTernan

UCHAFBWYNTIAU PERFFORMIO

Roedd *The Electric*, gan Vickie Donoghue ac wedi'i chyfarwyddo gan Anthony Simpson-Pike, yn un o bedair drama newydd sbon a ddarllledwyd i gynulleidfaeodd ar-lein ym mis Mai a mis Mehefin. Mae tymor NEWYDD '21 yn dwyn ynghyd rai o'r ysgrifenyddwyr a'r cyfarwyddwyr mwyaf cyffrous a Chwmni Richard Burton - cwmni mewnol CBCDC o fyfyrwyr blwyddyn olaf meysydd Actio, Rheoli Llwyfan a Chynllunio ar gyfer Perfformio

JENNA PREECE

Cyflwynodd y myfyriwr MA Actio Jenna Preece raglen ar BBC Radio Wales ynglŷn â sut y gallwn wneud ein byd yn fwy hygyrch a chynhwysol i bobl anabl wrth i gyfyngiadau'r pandemig gael eu llacio.



Llun gan Kirsten McTernan

UCHAFBWYNTIAU PERFFORMIO

Cerddorfa Symffoni CBCDC yn rihysio rhaglen o waith Beethoven, Mendelssohn a Mozart ym mis Mehefin ar gyfer ei chyngerdd yn Neuadd Dewi Sant, ei chyngerdd cyntaf ers dechrau 2020. Cyfarwyddwyd y perfformiad gan y myfyrwyr MMus Arwain Naviena Selvarajah, Constanca Simas a Kay Salomon.

YMWELIAD BRENHINOL

Aelodau o dîm Undeb y Myfyrwyr ar gyfer 2021/22 yn cwrdd ag EUB Tywysog Cymru yn ystod Ymweliad Brenhinol â'r Coleg ym mis Gorffennaf.



Llun gan Simon Gough



DOSBARTHIADAU MEISTR

Er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig, roedd myfyrwyr yn dal i allu elwa gan weithdai a dosbarthiadau meistr gydag artistiaid a thiworiaid ar ymweliad. Yma gwelir Syr Antonio Pappano - cyfarwyddwr cerddorol y Tŷ Opera Brenhinol, Covent Garden - yn gweithio gyda myfyrwyr yr adran Llais.

UZO IWOBI

Uzo Iwobi, Is-lywydd a benodwyd yn ddiweddar, gyda'r Prifathro Helena Gaunt. Meddai Uzo 'Mae'n anrhydedd enfawr i gael gwahoddiad i wasanaethu'r Coleg fel Is-lywydd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, fel Athro Cadair Rhyngwladol ar gyfer Amrywiaeth, rydw i wedi meithrin edmygedd mawr o'r gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud yma. Roeddwn i wrth fy modd i gefnogi'r Coleg wrth iddo gymryd ei gamau hollbwysig a heriol i ddatblygu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol a'i Gynllun Gwrth-hiliaeth. Mae'r rhain yn gamau pwysig tuag at wreiddio diwylliant cynhwysol ym mhob elfen o waith y Coleg ac mae'n bleser mawr i fod yn rhan o'r daith drawsnewidiol hon.'



Llun gan Simon Gough

RHAGLEN

WEDI 18 MIS ANODD, MAE'N
BLESER GENNYM ALLU
CYNLLUNIO I GROESAWU
CYNULLEIDFAOEDD
ALLANOL YN ÔL O DYMOR
YR HYDREF YMLAEN.
CADWCH LYGAD AM Y
LLYFRYN AC AR ADRAN
RHAGLEN EIN GWEFAN:

[WWW.RWCMD.AC.UK/
WHATS-ON/EVENTS/ALL](http://WWW.RWCMD.AC.UK/WHATS-ON/EVENTS/ALL)

gael manylion llawn y calendr
cyffrous o berfformiadau.



CYMERWCH EICH SEDD...

A HELPWCH EIN MYFYRWYR I HAWLIO'U LLE

Enwch sedd yn Neuadd Dora Stoutzker neu
Theatr Richard Burton i chi'ch hun, er cof am
anwylyd, i nodi achlysur arbennig neu fel
anrheg fythgofiadwy i garwr cerddoriaeth
neu theatr yn eich bywyd...

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan CBCDC
neu e-bostiwch takeyourseat@rwcmd.ac.uk

£100 yw'r pris isaf am engrafiad a bydd pob
ceiniog yn cyfrannu at ein Cronfa Bwrsariaeth

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

RWCMD.AC.UK

Cofrestrwyd gyda'r
FR FUNDRAISING
REGULATOR
RHEOLEDDIWR CODI ARIAN

BAD WOLF

YN GYNHARACH YN Y FLWYDDYN, ROEDDEM YN FALCH IAWN O GYHOEDDI BOD BAD WOLF WEDI ADNEWYDDU EI GEFNOGAETH I CBCDC, GAN NODDI NIFER O FENTRAU SY'N AGOR LLWYBRAU AMRYWIOL I YRFAOEDD YN Y DIWYDIANNAU CREADIGOL.

Mae'r cwmni cynhyrchu, sy'n gyfrifol am gyfresi teledu poblogaidd megis *A Discovery of Witches*, *Industry*, *I Hate Suzie* a *His Dark Materials*, yn flaenllaw mewn diwydiant ffilm a theledu sy'n ffynnu yng Nghymru a'r DU.

Yn ogystal ag Ysgoloriaeth Amrywiaeth ar gyfer myfyriwr talentog o grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol, mae Bad Wolf yn cefnogi ein rhaglen Celfyddydau Cynhyrchu Pobl Ifanc (YPPA) a Gradd Sylfaen newydd mewn Adeiladu Golygfeydd sy'n dechrau ym mis Awst. Fel rhan o raglen dosbarthiadau meistr YPPA, mae Bad Wolf a Screen Alliance Cymru (partner addysg a hyfforddiant Bad Wolf) wedi bod yn dod â phobl

"MAE'R BARTNERIAETH RHWNG BAD WOLF A CBCDC YN DANGOS YMRWYMIAD Y CWMNI I YSBRYDOLI CENHEDLAETH NEWYDD AC AMRYWIOL O YMARFERWYR CREADIGOL MEDRUS..."

ifanc ynghyd ag ymarferwyr ysbrydoledig y diwydiant, fel gwneuthurwr gwisgoedd a chyn-fyfyriwr CBCDC, Hazel Jewkes.

Mae'r bartneriaeth rhwng Bad Wolf a CBCDC yn dangos ymrwymiad y cwmni i ysbrydoli cenedlaeth newydd ac amrywiol o ymarferwyr creadigol medrus ym meysydd celfyddydau cynhyrchu a theatr dechnegol, gan alluogi cyfleoedd i gael mynediad at yr hyfforddiant o ansawdd uchel a ddarperir gan CBCDC.

WWW.BADWOLF.COM

WWW.SCREENALLIANCEWALES.COM



Raglen Dosbarthiadau Meistr YPPA



Ymaelodwch i gefnogi profiadau
hyfforddiant a chyfleoedd
perfformio myfyrwyr



I gael rhagor o wybodaeth am ymuno â CYSWLLT
ewch i WWW.RWCMD.AC.UK/CY/CEFNOGWCH-NI/CYSWLLT
neu drwy gysylltu â CONNECT@RWCMD.AC.UK



Cofrestrwyd gyda'r
**FUNDRAISING
REGULATOR**
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

RWCMD ETIFEDDIAETH

"DRWY GYNNWYS FY
SODDGRWTH, 'HOTCH',
FEL RHODD YN FY
EWYLLYS A SEFYDLU
YSGOLORIAETH
SODDGRWTH, RWYF
WEDI DIOGELU DYFODOL
I 'HOTCH' YN OGYSTAL
AG ARIAN I ALLUOGI
MYFYRWYR DAWNUS
Y DYFODOL I BARHAU
Â'U HASTUDIAETHAU
CERDDOROL. NI ALLWN
OFYN AM FWY."

ELISABETH HOTCHKISS,
CYMYNNWR



I sgwrsio gyda rhywun am gefnogi
myfyrwyr CBCDC drwy adael rhodd
yn eich ewyllys, cysylltwch â:

Sara West
029 2039 1420
sara.west@rwcmd.ac.uk

Marie Wood
029 2039 1401
marie.wood@rwcmd.ac.uk